# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Rhos**

**Malltraeth**
**Bodorgan**
**LL62 5AE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 31 Hydref 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Rhos

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Rhos Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 33 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | This is the first inspection undertaken since the service was re-registered under RISCA |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal cartref oddi cartref o ansawdd da. Mae'r staff gofal yn sylwgar ac yn darparu gofal yn unol â chynlluniau personol unigol y bobl. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r gwasanaeth y maent yn eu cael. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl, wedi'u personoli ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn ymwybodol o'u hanghenion unigol ac mae'r bobl yn teimlo'n gyfforddus wrth fynd at y staff gofal.

Mae'r staff gofal yn hyderus, yn gymwys ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli. Caiff y staff gofal sesiynau goruchwylio a hyfforddiant rheolaidd a pharhaus i'w galluogi i ymgymryd â'u rolau'n llwyddiannus. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae'r tîm rheoli yn ymroddedig, yn weledol ac yn hygyrch. Mae'r amgylchedd yn lân, yn gynnes, yn gartrefol ac yn groesawgar.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r bobl yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni'r staff gofal sydd ar gael i'w helpu a'u galluogi. Caiff y bobl gymorth i ddilyn eu harferion dyddiol fel unigolion. Mae'r rhain yn cynnwys eu harferion yn y gwasanaeth a'r tu allan i'r gwasanaeth. Caiff ymwelwyr eu hannog i ymweld â'r gwasanaeth a chânt groeso. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus yn byw yn y gwasanaeth a bod y gofal a gânt yn dda. Cynhelir cyfarfodydd i'r preswylwyr lle y bo'n bosibl ac mae'r tîm rheoli yn hyrwyddo eu hannibyniaeth, eu dewis a'u llais.

Mae'r bobl mor iach ac egnïol ag y gallant fod. Gwelsom y bobl yn mwynhau dewis o brydau iach. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw, "*Mae'r bwyd yn fendigedig*". Caiff iechyd y bobl ei fonitro'n agos gan y staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda. Caiff camau amserol eu cymryd i sicrhau bod apwyntiadau iechyd y bobl yn cael eu trefnu yn ôl yr angen ac mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd.

Mae'r teulu yn croesawu ymweliadau gan deulu a ffrindiau. Dywedodd yr ymwelwyr y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a gaiff eu teulu. Mae rhai yn ymweld â'r gwasanaeth bob dydd. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal cydberthnasau â theulu a ffrindiau. Mae ymagwedd anogol a chroesawgar y staff gofal a'r tîm rheoli yn allweddol wrth gynnal y cyswllt hwn.

Mae mesurau ar waith i sicrhau bod y bobl yn ddiogel. Mae'r staff gofal wedi'u hyfforddi i wneud yn siŵr y gallant ddiwallu anghenion gofal y bobl. Caiff yr hyfforddiant ei ddiweddaru yn ôl yr angen, gan gynnwys hyfforddiant diogelu. Mae'r rhaglen hyfforddiant yn cadarnhau hyn. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon am rywun. Caiff hysbysiadau amserol a phriodol eu cyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) pan fo angen. Mae'r amgylchedd yn ddiogel a chaiff ei fonitro'n rheolaidd.

Mae'r bobl yn cael dewis p'un a hoffent gael gwasanaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae'r staff gofal yn ddwyieithog ac yn rhoi'r dewis hwn i'r unigolion. Mae hwn yn ffactor pwysig o ran dewis unigol, dewis iaith a llesiant y bobl.

## Gofal a Chymorth

Mae'r darparwr yn sicrhau bod gan y bobl gynlluniau personol cywir a chyfredol er mwyn gwneud yn siŵr y darperir gofal iddynt yn unol ag anghenion gofal unigol. Gwnaethom edrych ar bedwar cynllun personol a gwelsom eu bod wedi cael eu cwblhau gan gynnwys gwybodaeth gan y bobl a gweithwyr proffesiynol perthnasol; caiff y wybodaeth hon ei hadolygu, yn ôl yr angen. Mae hyn yn sicrhau bod y wybodaeth sydd i'w gweld yn gyfredol a'i bod yn adlewyrchu'r unigolyn. Mae gwybodaeth am ddymuniadau'r bobl, eu credoau, eu dewisiadau a'u harferion yn rhan ganolog o'r broses o lunio'r cynlluniau personol. Caiff annibyniaeth y bobl ei hyrwyddo lle y bo'n bosibl. Mae'r manylion a gofnodir yn y cynlluniau personol yn adlewyrchu anghenion gofal unigol. Caiff y gofal a ddarperir ei oruchwylio'n effeithiol gan yr uwch-ofalwyr, sy'n golygu bod y bobl yn cael gofal o ansawdd da.

Caiff y bobl eu cefnogi i ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys manylion am anghenion gofal iechyd y bobl yn ogystal â mewnbwn a chyngor gan amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Gwnaethom edrych ar y cofnodion sy'n cael eu defnyddio i gofnodi materion dyddiol. Caiff cofnodion clir eu cadw am unrhyw ymgynghori a wneir â gweithwyr proffesiynol ac unrhyw gyngor a geir ganddynt, yn ogystal ag unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen. Mae'r staff gofal yn cyfeirio at y cofnod hwn o ohebiaeth er mwyn llywio'r gofal a roddir ganddynt. Gwelsom ohebiaeth reolaidd rhwng Ymarferwyr Cyffredinol a Nyrsys Ardal. Roedd y cofnodion a welsom yn glir ac yn fanwl. Gwelsom fod nifer o sgyrsiau wedi cael eu cynnal dros y ffôn â gweithwyr proffesiynol amrywiol yn ystod ein hymweliad. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref wrthym, “*Communication is good and timely*” a “*The care provided is of good quality”.*

Mae systemau rheoli meddyginiaeth diogel ar waith. Gwelsom y polisi meddyginiaeth a oedd wedi cael ei adolygu. Mae'n cynnwys canllawiau manwl am oruchwylio'r prosesau ar gyfer archebu, ailarchebu, gweinyddu a gwaredu meddyginiaeth. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar roi meddyginiaeth, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y matrics hyfforddiant ac yn ffeiliau'r staff. Dywedodd y staff gofal sy'n rhoi meddyginiaeth wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus wrth gwblhau'r broses rhoi meddyginiaeth. Gwelsom sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR); maent yn cynnwys cofnodion clir a chywir wedi'u llofnodi'n briodol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i nodi a lleihau'r risg i'r bobl. Mae mynedfa'r gwasanaeth yn ddiogel. Mae wedi'i haddurno mewn ffordd chwaethus, yn groesawgar, yn gynnes ac yn lân. Mae nifer o ystafelloedd byw cymunedol ar gael i'r bobl ddewis treulio eu hamser ynddynt. Mae ystafelloedd y bobl yn gartrefol ac wedi'u personoli. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar eu hystafelloedd ac wedi setlo ynddynt. Mae balconi â golygfeydd o'r môr a'r mynyddoedd lle gall y bobl dreulio amser yn ystod y misoedd cynhesach. Mae ardaloedd yn y gerddi ag ardaloedd eistedd priodol hefyd.

Gwnaethom edrych ar gofnodlyfr cynnal a chadw'r gwasanaeth; caiff llofnodion a dyddiadau eu cofnodi ar dasgau sydd wedi'u cwblhau. Caiff pob ardal angenrheidiol ei chloi er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel. Gwelsom fod cymhorthion symudedd yn cael eu monitro o fewn yr amserlenni gofynnol. Caiff dyfeisiau trydanol eu gwirio hefyd. Caiff eitemau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd wedi'i gloi. Dengys cofnodion y cynhelir gwiriadau diogelwch fel mater o drefn mewn perthynas â materion fel tymheredd dŵr, legionella, cyfarpar tân a diogelwch tân. Llwyddodd y cartref i gynnal sgôr o 5 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef y sgôr uchaf posibl y gellir ei hennill.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu priodol ar waith. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith sy'n unol â'r Datganiad o Ddiben. Mae systemau effeithiol ar waith er mwyn cynllunio, monitro ac adolygu'r gofal. Roedd y cofnodion yn dangos bod adolygiadau gofal parhaus yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom archwiliadau a gwblhawyd; gan gynnwys gwaith i fonitro Cynlluniau Gofal, Meddyginiaeth a Chynnal a Chadw. Maent yn gadarn, yn rheolaidd ac yn nodi meysydd i'w gwella.. Er enghraifft, caiff y cynlluniau gofal eu hadolygu bob dydd. Gwelsom fod baneri coch yn ymddangos pan fydd angen adolygu'r anghenion gofal a chaiff y cofnodion eu haddasu os/pan fydd yr anghenion gofal yn newid. Gwelsom fod adolygiadau o'r gofal, gan gynnwys asesiadau risg, yn fanwl ac yn gyfredol.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn goruchwylio ansawdd y gofal. Mae'n annog y bobl, teuluoedd sy'n ymweld â'r gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol i roi adborth. Caiff adroddiadau eu llunio yn unol â'r gofynion rheoleiddiol. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn cyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol bob dydd.

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu niferoedd priodol o staff sy'n cael eu recriwtio, eu hyfforddi a'u cefnogi'n ddiogel. Gwelsom fod digon o staff ar gael ar ddiwrnod ein hymweliad. Roedd y rotas staff a welsom ar gyfer y ddeufis diwethaf hefyd yn dangos bod digon o staff ar gael i ofalu am y bobl. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym eu bod yn *“feel supported”* ac yn cael hyfforddiant a sesiynau goruchwylio rheolaidd. Gwelsom ffeiliau staff pedwar aelod o'r staff gofal a oedd yn dangos hyn. Mae'r matrics hyfforddiant yn gyson â'r cofnodion hyfforddiant yn ffeiliau’r staff gofal. Gwelsom fod y staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol bob chwarter ac arfarniadau blynyddol ffurfiol yn unol â'r gofynion.

Mae'r darparwr yn cyfathrebu â chyrff rheoleiddio ac asiantaethau statudol, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, yn effeithiol ac yn eu hysbysu'n effeithiol yn ôl yr angen. Gwelsom yr hysbysiadau a anfonwyd at Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), sy'n gyson â'r cofnodion a ddelir gan AGC. Caiff hysbysiadau priodol eu hanfon at yr Awdurdod Lleol hefyd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/03/2023